**Ymateb y Llywodraeth: Gorchymyn Senedd Cymru (Breinlythyrau a Phroclamasiynau) 2021**

Gwelwn fod yr adroddiad yn nodi bod Gweinidogion Cymru wedi gwneud y Gorchymyn cyn iddo gael ei osod gerbron y Senedd.

Gwnaed y Gorchymyn gan Ei Mawrhydi yn y Cyfrin Gyngor, drwy arfer y pŵer o dan adran 116(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Yn unol ag adran 116(4), mae'r Gorchymyn yn ddarostyngedig i'w ddiddymu drwy benderfyniad gan y Senedd.

<u>Pwyntiau Craffu ar Rinweddau o dan Reol Sefydlog 21.3(ii)</u>

1. Mae'r geiriad "yn ddarostyngedig yn unig i unrhyw amrywiadau sy'n angenrheidiol o dan yr amgylchiadau" yn erthygl 2 o'r Gorchymyn wedi ei gynnwys i ganiatáu, o dan amgylchiadau penodol, i'r ffurf ar eiriau yn y Breinlythyrau a'r proclamasiynau fel y'i nodir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn gael ei hamrywio. Mae'r geiriad wedi ei gynnwys i ddarparu ar gyfer newidiadau interim angenrheidiol i'r ffurf ar eiriau yn y Breinlythyrau a'r Proclamasiynau. Mae modd mabwysiadau'r newidiadau hynny hyd nes y gellir diwygio'r Gorchymyn.

Mabwysiadwyd yr un geiriad yn erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Breinlythyrau) 2011 a dibynnwyd ar y geiriad i roi "Senedd Cymru" yn lle "Cynulliad Cenedlaethol Cymru" ym mhob Breinlythyr yn dilyn newid enw'r Senedd yn Neddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020.

Nid ydym yn ystyried bod adran 4(2)(a) yn darparu'n benodol y bydd proclamasiwn brenhinol yn diddymu'r Senedd. Mae adran 4(2) yn darparu y caiff Ei Mawrhydi drwy broclamasiwn ddiddymu'r Senedd, ond nid yw'n darparu bod rhaid i'w Mawrhydi ddiddymu'r Senedd ac rydym wedi ein bodloni felly y caiff y Llywydd arfer ei phŵer brys o dan adran 4(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru pan fo'r Senedd eisoes wedi ei diddymu ac ar rybudd byr iawn.

Yng nghyd-destun y geiriad mewn proclamasiwn brenhinol o dan adran 4(2)(a), rydym yn ystyried y byddai'r geiriad yn erthygl 2 yn caniatáu amrywiad o'r fath yng ngeiriad y proclamasiwn, fel y byddai'n angenrheidiol os oedd y Senedd eisoes wedi ei diddymu cyn i'r Llywydd arfer ei phŵer o dan adran 4(2) o Ddeddf 2006. O ran hynny, byddem yn rhag-weld y byddai'r geiriad ym mhwynt 1 o'r Gorchymyn, sef "mae Senedd Cymru drwy hyn wedi ei diddymu", yn cael ei hepgor o broclamasiwn a wneir o dan adran 4(2) pan oedd y Senedd eisoes wedi ei diddymu.

2. Cytunwyd ar Fil Etholiadau Cymru (Coronafeirws) gan y Senedd ar 10 Chwefror 2021. Y gobaith yw y ceir y Cydsyniad Brenhinol yn ystod yr wythnosau i ddod. Mae'r Gorchymyn wedi ei ddrafftio i ddarparu ar gyfer datgymhwyso adran 4(2)(c) at ddiben etholiad cyffredinol 2021.

Os na cheir y Cydsyniad Brenhinol, gellid defnyddio’r geiriad a nodir yn [1] uchod ac sy’n ymddangos yn erthygl 2 o’r Gorchymyn i amrywio’r ffurf ar eiriad proclamasiwn a wneir o dan adran 4(2) o Ddeddf 2006 mewn cysylltiad â chyfarfod cyntaf y Senedd.

Rydym wedi ein bodloni bod darpariaeth statudol ddigonol sy’n ei gwneud yn ofynnol i’r Senedd gyfarfod yn y cyfnod o 14 o ddiwrnodau neu 21 o ddiwrnodau ar ôl yr Etholiad Cyffredinol nesaf, naill ai yn rhinwedd Bil Etholiadau Cymru (Coronafeirws) neu adran 39 o Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020.

3. Mae modd amrywio’r ffurf ar eiriad unrhyw broclamasiwn a wneir o dan adran 5(4) o Ddeddf 2006 ar sail interim, yn unol â’r geiriau a nodir yn [1] uchod ac sy’n ymddangos yn erthygl 2 o’r Gorchymyn, i amrywio dyddiad cyfarfod cyntaf y Senedd o 7 niwrnod i 14 o ddiwrnodau.

Bwriedir i’r geiriau yn erthygl 2, fel y cyfeirir atynt yn [1] uchod, fabwysiadu newidiadau interim, ac felly, disgwylir y bydd angen diwygio’r Gorchymyn yn dilyn yr Etholiad Cyffredinol nesaf, i roi effaith i adran 36 o Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 mewn perthynas â dyddiad y cyfarfod cyntaf.